# Asesiad o’r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

Asesiad Effaith integredig yw hwn, sydd â'r nod o sicrhau bod Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud penderfyniadau sy'n deg, yn ystyried tystiolaeth berthnasol, ac yn ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. **Dylid defnyddio AEDCh i lywio camau cyntaf gwneud penderfyniadau, yn ystod y cam cysyniad, nid pan fo penderfyniad wedi ei wneud eisoes, neu ar y pwynt pryd na ellir dylanwadu arno**. Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried ein cyfrifoldebau deddfwriaethol o dan:

- Ddeddf Cydraddoldeb (2010), gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ni fwriedir i'r broses AEDCh atal penderfyniadau rhag cael eu gwneud, ond sicrhau ein bod wedi ystyried eu heffaith bosibl. Mae AEDCh hefyd yn ein helpu i ganolbwyntio ar sut y gallwn leihau unrhyw effeithiau negyddol, ac mae'n rhoi tystiolaeth i ni ein bod wedi cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol.

***Am gymorth i gwblhau eich AEDCh, cysylltwch â'r Tîm Cymunedau Cysylltiedig***

## Beth yw ystyr Tegwch?

Mae Comisiwn Tegwch Casnewydd yn gorff annibynnol sy'n cynghori'r cyngor ar y defnydd gorau o adnoddau a phwerau i sicrhau'r canlyniadau tecaf i bobl leol. Mae'r Comisiwn Tegwch wedi sefydlu pedair o **Egwyddorion Tegwch** y dylid eu hystyried fel rhan o unrhyw benderfyniadau y mae'r cyngor yn eu gwneud – mae'r cwestiynau isod yn ddefnyddiol i'w hystyried cyn i chi ddechrau eich AEDCh.

| | |
|---|---|
| **Uniondeb** | A yw pobl yn cael eu trin mewn ffordd gyson, tra'n cydnabod eu gwahaniaethau (er enghraifft, angen, rhwystrau rhag gallu cyrchu gwasanaethau)? |
| | A fydd y bwlch rhwng y rhai sydd â mwy, a'r rhai sydd â llai yn cael ei leihau? |
| | A ystyriwyd buddiannau gwahanol grwpiau (gan gynnwys cymunedau lleiafrifol neu ddifreintiedig)? |
| **Blaenoriaeth** | A yw anghenion y rhai mwyaf difreintiedig ac agored i niwed ar draws y ddinas wedi cael blaenoriaeth? |
| | A ydych wedi ystyried canlyniadau anuniongyrchol posibl i gymunedau lleiafrifol/difreintiedig pan fo blaenoriaethau eraill yn cyfeirio penderfyniadau? |
| **Cynhwysiant** | A fydd lleisiau pawb y mae eich penderfyniad yn effeithio arnynt yn cael eu clywed? |
| | A yw pobl yn gallu cymryd rhan a siapio gwasanaeth, yn ogystal â'i dderbyn? |

| | |
|---|---|
| | A ydych wedi ystyried effaith eich penderfyniad ar y berthynas rhwng cymunedau, a'r mannau y maent yn eu rhannu? |
| **Cyfathrebu** | A yw penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw ac yn gyson? |
| | Sut y caiff penderfyniadau eu cyfathrebu i bobl a gaiff eu heffeithio mewn ffordd glir, gyda'r cyfle am adborth? |

# Rhan 1: Adnabod

| | |
|---|---|
| Enw’r person sy’n cwblhau’r AEDCh | Robert Fisher |
| Rôl y person sy'n cwblhau'r AEDCh | **Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Addysg** |
| Dyddiad cwblhau | **15/11/2023** |
| Pennaeth Gwasanaeth sydd wedi cymeradwyo'r AEDCh hwn | **Sarah Morgan - Pennaeth Addysg** |

1. **Beth sy'n cael ei asesu?** *(Cliciwch ddwywaith ar y blwch(blychau) perthnasol (X) a dewiswch 'checked' fel y bo'n briodol)*

☒ Polisïau, arferion neu weithdrefnau newydd neu ddiwygiedig (sy'n addasu darparu gwasanaethau neu arferion cyflogaeth)

☒ Adolygu gwasanaeth neu ad-drefnu cynigion sy'n effeithio ar y gymuned a/neu staff

☐ Cynigion effeithlonrwydd neu arbed

☐ Pennu dyraniadau cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol newydd a chynllunio ariannol strategol

☐ Penderfyniadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, cyflogeion neu'r gymuned ehangach gan gynnwys comisiynu(dad gomisiynu) neu ddiwygio gwasanaethau

☐ Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu fynediad i'r amgylchedd adeiledig

☐ Digwyddiadau cyhoeddus

☐ Gweithredu Strategaeth/Cynlluniau/Deddfwriaeth Genedlaethol yn lleol

☐ Cyfarwyddeb a bwriad strategol, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

☒ Cynlluniau tymor canolig i hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, cynlluniau darparu gwasanaethau a chynlluniau gwella)

☐ Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)

☐ Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr

☒ Penderfyniadau sy'n effeithio ar allu (gan gynnwys partneriaid allanol) i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau Cymraeg

☐ Arall *esboniwch yn y blwch isod:*

## 2. Disgrifiwch nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig cyffredinol eich penderfyniad

Y canlyniad a fwriedir yw addasu dyddiadau gweithredu cynnig ad-drefnu ysgolion a gymeradwywyd yn flaenorol i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg dau ddosbarth mynediad newydd yng Nghasnewydd ac adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli o'i safle presennol i ysgol newydd ar ddatblygiad Whiteheads. Penderfynwyd ar y cynnig i'w weithredu ar 26 Mehefin 2020 yn dilyn ymgynghoriad statudol cyhoeddus llawn. Y cynnig oedd:

- Sefydlu ysgol gynradd egin Gymraeg ar safle gwag hen Ysgol Fabanod Lodge Hill Caerllion o fis Medi 2021;
- Adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli o'i safle presennol i'r adeilad newydd ar ddatblygiad Whiteheads, ac wrth wneud hynny i gynyddu capasiti'r ysgol ar gyfer disgyblion prif ffrwd o 546 i 630 a'i Chanolfan Adnoddau Dysgu (CAD) o 10 i 20 o leoedd o fis Ionawr 2023, ac;
- I drosglwyddo'r ysgol i leoliad parhaol ar safle ysgol gynradd bresennol Pilgwenlli o fis Medi 2023.

Agorodd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ym mis Medi 2021 yn lleoliad dros dro hen safle Ysgol Fabanod Caerllion, Lodge Hill, yn unol â'r cynnig gwreiddiol. Fodd bynnag, oherwydd oedi wrth drosglwyddo'r tir ar safle Whiteheads gan Lywodraeth Cymru i'r datblygwr enwebedig ac yna i'r Cyngor, addaswyd gweithredu ar y cynnig a benderfynwyd ym mis Mawrth 2022 fel a ganlyn:

- Adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli o'i safle presennol i'r adeilad newydd ar ddatblygiad Whiteheads, ac wrth wneud hynny i gynyddu capasiti'r ysgol ar gyfer disgyblion prif ffrwd o 546 i 630 a'i Chanolfan Adnoddau Dysgu o 10 i 20 o leoedd o fis Ionawr 2024, ac;
- I drosglwyddo egin-Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli i leoliad parhaol ar safle ysgol gynradd bresennol Pilgwenlli o fis Medi 2024.

Trosglwyddwyd y safle o'r diwedd i Gyngor Dinas Casnewydd ym mis Rhagfyr 2022, lawer hwyrach na'r disgwyl. O ganlyniad, dim ond yn ystod haf 2023 y llwyddodd y gwaith adeiladu ddechrau ar yr ysgol newydd. Mae gwaith adfer angenrheidiol ar y safle wedi gweld oedi ychwanegol i sicrhau bod y tir o safon ddiogel addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Mae amserlen waith ddiwygiedig yn awgrymu oedi o un flwyddyn

galendr arall ar brosiect adeiladu'r ysgol. O ganlyniad, ni fydd yr ysgol newydd yn barod i'w meddiannu tan fis Ionawr 2025 sydd hefyd yn oedi adleoli Ysgol Gymraeg Nant Gwenllli i safle Ysgol Gynradd Pilgwenlli i fis Ebrill 2025.

Y canlyniad a gynigir felly yw oedi am flwyddyn galendr arall i gam dau a dau dymor ysgol i gam tri y cynnig ad-drefnu ysgolion diwygiedig, fel mai'r cynnig diwygiedig fydd:

- Adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli o'i safle presennol i'r adeilad newydd ar ddatblygiad Whiteheads o fis Ionawr 2025, a;
- I drosglwyddo wedyn egin-Ysgol Gymraeg Nant Gwenllli i leoliad parhaol ar safle ysgol gynradd bresennol Pilgwenlli o fis Ebrill 2025.

**3. Pwy yw'r prif randdeiliaid a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad a pha ddata sydd gennych arnynt? Ystyried cymunedau o ran lle (pobl sy'n byw yn yr un ardal ddaearyddol) a chymunedau o ddiddordeb (pobl sy'n rhannu nodweddion penodol ond a all fyw mewn gwahanol ardaloedd daearyddol). Gall rhanddeiliaid gynnwys preswylwyr, busnesau lleol, grwpiau cymunedol, staff neu bartneriaid.**

Mae'r rhanddeiliaid canlynol ymhlith y rhai a fu'n rhan o'r broses ymgynghori wreiddiol:

- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid Ysgol Gynradd Pilgwenlli, Ysgol Gymraeg Casnewydd, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon ac Ysgol Gymraeg Ifor Hael;
- Aelodau staff yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli, Ysgol Gymraeg Casnewydd, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon ac Ysgol Gymraeg Ifor Hael;
- Aelodau'r Senedd (AoS) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sy'n destun y cynigion;
- Estyn;
- Unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gellir effeithio arnynt, gan gynnwys y Mudiad Meithrin;
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;
- Unrhyw gorff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol â buddiant;
- Comisiynydd y Gymraeg.
- Grwpiau cymunedol lleol
- Sefydliadau gwirfoddol a grwpiau buddiant

Gwnaeth y Cod statudol amlinellu'r rhanddeiliaid allweddol yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r broses hon sy'n cynnwys ysgolion, rhieni, aelodau etholedig, cynghorau cymuned ac undebau llafur. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ac mae'r Cyngor wedi nodi ac ychwanegu at hyn o ganlyniad i adborth a gafwyd ynghylch cynigion blaenorol a bydd hefyd yn ymgynghori â Chanolfan Serennu; SNAP Cymru a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent. Cynhaliwyd ymgynghoriadau â grwpiau rhanddeiliaid gyda disgyblion o'r ysgolion yr effeithiwyd

arnynt, drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb â’r cyngor ysgol a thrwy holiaduron. Rhoddodd hyn y cyfle i ddisgyblion leisio eu barn ar y cynnig. Gan i gam un y cynnig gael ei roi ar waith, mae nifer fach o ddisgyblion a staff ysgol Gymraeg Nant Gwenllli bellach, y bydd y cynnig yn effeithio arnynt.

Mae ward Pilgwenlli yn cynrychioli tua 2.90% o ardal gyfan Casnewydd ac mae'n gartref i 5.52% o gyfanswm poblogaeth y ddinas. Pillgwenlli sydd â'r ganran uchaf ond un o blant dan 16 oed yr holl wardiau yng Nghasnewydd, sef 23.61%, mae ganddi hefyd y ganran uchaf o bobl 16 i 64 oed o'r holl wardiau yng Nghasnewydd, sef 66.92%, a Pilgwenlli sydd â'r ganran isaf o bob dros 65 oed, sef 9.47%. Mae ffigurau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y ward yn dangos twf poblogaeth o 12.5% rhwng 2011 a 2017. Bu'r twf yn y boblogaeth yn bennaf ymysg y rhai o oedran gweithio (16-64) er bod nifer y plant 0-15 oed hefyd wedi cynyddu gan 15.8% dros y cyfnod.

Mae cyfrifiad 2011 yn dangos poblogaeth lleiafrifoedd ethnig o 44.8% ym Mhilgwenlli, sef yr uchaf o'r holl wardiau yng Nghasnewydd ac yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru a Chasnewydd. Mae'r gymuned yn amrywiol iawn, gyda 24 o ieithoedd cartref gwahanol wedi'u cofnodi ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli. Mae diweithdra hefyd yn uwch ym Mhilgwenlli, sef 7.3% o gymharu â chyfartaledd Casnewydd (5.3%) a chyfartaledd Cymru (4.3%). Adlewyrchir lefel yr anfantais economaidd yn yr ardal gan gyfran y disgyblion yn yr ysgol sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) sef 36.1% o gymharu â chyfartaleddau Casnewydd a Chymru, sef 21.5% a 21.3% yn y drefn honno.

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 140,400 o bobl yn byw yng Nghasnewydd a 9,157 (6.5%) o bobl yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, gyda 4,975 rhwng 3 a 14 oed. Ym mis Ionawr 2021 mae 687 (4.9%) o ddisgyblion oed ysgol gynradd (Derbyn – Blwyddyn 6) yn mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd. Mae hyn wedi cynyddu gan bron 100 o ddisgyblion yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

# Rhan 2:  Ymgysylltu

Wrth gwblhau'r adran hon, mae angen i chi ystyried a oes gennych ddigon o wybodaeth am farn a phrofiadau pobl y bydd eich penderfyniad yn effeithio arnynt.  Os na wnewch hynny, efallai y bydd angen i chi ymgymryd â chyfnod o ymgysylltu/ymgynghori cyn parhau.  Mae AEDCh yn ddogfen fyw, felly gellir ei diweddaru gyda chanfyddiadau'r ymgynghoriad, a'i diwygio yn ôl yr angen yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

Mae gan y cyngor ddyletswydd i ymgynghori ac ymgysylltu â phobl a allai brofi anghydraddoldebau o ganlyniad i'ch penderfyniad.  Mae hyn yn cynnwys pobl **sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig** (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) a phobl sydd **â phrofiad bywyd o anfantais economaidd-gymdeithasol**. Mae Addewid Ieuenctid y cyngor hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau y **gwrandewir ar bob person ifanc yng Nghasnewydd a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt**.

Mae gan y cyngor ddyletswydd hefyd i sicrhau bod unrhyw ymgynghoriad ar gael yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg), ac efallai yr hoffech ystyried unrhyw ieithoedd cymunedol eraill a siaredir gan bobl a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad.  Isod ceir rhai cwestiynau y dylid eu cynnwys mewn unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus sy'n ymwneud â phenderfyniad a allai effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd:

1. A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
2. Os ydych o'r farn y caiff effaith negyddol, pa gamau y gallem eu cymryd i leihau neu osgoi hyn a gwella'r effeithiau cadarnhaol?
3. A ydych yn credu y bydd y penderfyniad/polisi arfaethedig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**1. Sut ydych chi wedi ymgysylltu â phobl a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad (y rhanddeiliaid rydych chi wedi'u nodi)?**

| |
|---|
| Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol helaeth ar y cynnig gwreiddiol i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid rhwng 4 Gorffennaf 2019 a 13 Medi 2019.  Yn dilyn yr ymgynghoriad, lluniwyd adroddiad ymgynghori i gyflwyno'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.  Wedyn, ystyriodd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd y farn a fynegwyd a phenderfynodd fwrw ymlaen â'r cynnig.  Cyhoeddwyd hysbysiad statudol, a pharhaodd am 28 diwrnod ar ôl y dyddiad cyhoeddi (2 Mawrth 2020), a galluogodd pobl i fynegi eu barn ar ffurf cefnogi neu wrthwynebu'r cynigion. Gan na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau, gwnaeth Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Addysg a Sgiliau y penderfyniad terfynol a chymeradwyo'r cynnig, yn weithredol o 26 Mehefin 2020.<br><br>Ym mis Mawrth 2022, hysbyswyd rhanddeiliaid bod y penderfyniad gwreiddiol ar weithredu dwy elfen o'r cynnig wedi'u gohirio am flwyddyn. Hysbyswyd rhanddeiliaid trwy lythyr hysbysu penderfyniad a ddanfonwyd drwy e-bost, trwy ddiweddariad AEDCh a diweddarwyd tudalennau gwe Cyngor Dinas Casnewydd i adlewyrchu'r oedi yn y gweithredu. Cafodd rhieni a myfyrwyr Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ac Ysgol Gynradd Pilgwenlli eu hysbysu drwy eu hysgolion a byddant yn cael eu gwahodd i gysylltu â swyddogion y cyngor i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â'r oedi.    Fodd bynnag, ni fu cyswllt gyda swyddogion Cyngor Casnewydd. |

Mae'r Cyngor nawr yn ceisio addasu'r penderfyniad diwygiedig ymhellach fel bod gweithredu dwy elfen o'r cynnig yn cael ei ohirio am flwyddyn arall ar gyfer cam dau a chan ddau dymor ysgol ar gyfer cam tri. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r rhanddeiliaid canlynol i'w hysbysu o'r angen i ohirio gweithredu camau dau a thri y cynnig:

- Y grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol
- Bwrdd Rhaglen Gyfalaf Gwasanaethau Pobl
- Penaethiaid a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ac Ysgol Gynradd Pilgwenlli
- Fforwm y Gymraeg mewn Addysg

Bydd rhanddeiliaid yn cael gwybod am y penderfyniad drwy lythyr a gyhoeddir drwy e-bost. Bydd rhieni a myfyrwyr Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ac Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn cael eu hysbysu drwy eu hysgolion a byddant yn cael eu gwahodd i gysylltu â swyddogion y cyngor i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â'r oedi.

Ym Medi 2023, mae 29 o ddisgyblion yn mynychu addysg statudol yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, ac mae 23 o ddisgyblion yn derbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae 2 ddisgybl yn mynychu meithrinfa Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. O'r herwydd, bydd effaith yr oedi ar ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol hon yn gyfyngedig.

Bydd y ddarpariaeth hon yn parhau am y blynyddoedd ychwanegol. Felly, gallai'r oedi wrth weithredu fod yn anghyfleustra ac yn siom i randdeiliaid, ond bydd yr effaith ar ddisgyblion a theuluoedd yn gyfyngedig.

**2. Beth ydych chi'n ei wybod am farn neu brofiadau pobl y gallai eich penderfyniad effeithio arnynt?**

Ar ôl y trafodaethau gyda'r holl bartïon, mae'r rhanddeiliaid yn cefnogi'r oedi wrth weithredu camau 2 a 3. Mae'r oedi wrth weithredu yn anffodus ond ni ellir ei osgoi gan ei fod y tu hwnt i reolaeth Cyngor Dinas Casnewydd a bydd modd rheoli'r gwaith o letya disgyblion yn yr egin ysgol.

# Rhan 3: Asesu

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i chi asesu effaith bosibl eich penderfyniad ar amrywiaeth o grwpiau a allai brofi anfanteision penodol. Dylai eich asesiad gael ei gefnogi gan dystiolaeth – naill ai o'ch ymgysylltiad/ymgynghoriad eich hun, ymgysylltu tebyg neu flaenorol, yr hyn yr ydych eisoes yn ei wybod am y bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaeth, neu o ffynonellau gwybodaeth lleol a chenedlaethol.

Mae dogfennau defnyddiol sy'n nodi gwybodaeth am sut mae anghydraddoldebau yn effeithio ar gymunedau yn cynnwys Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – A yw Cymru'n Decach? ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned COVID-19 gan y cyngor. Efallai y bydd eich penderfyniad yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol – os felly, rhowch groes yn y ddau flwch.

## 1. Effaith ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig

Caiff Nodweddion Gwarchodedig eu diffinio o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a disgrifiant grwpiau o bobl sy'n cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu, naill ai yn y gweithle, neu drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau. Rhaid i'r cyngor ystyried sut y gallai penderfyniadau effeithio ar bobl yn wahanol oherwydd nodwedd warchodedig, a sut y gellid lleihau unrhyw effaith negyddol. Gellir dod o hyd i ganllawiau cenedlaethol ar asesu effeithiau cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yma. Gallwch hefyd gael cyngor pellach ac enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol a negyddol yma.
https://www.equalityhumanrights.com/cy/equality-act/nodweddion-gwarchodedig

| **Nodwedd Warchodedig** | Effaith: | | | **Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:**<br><br>1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau<br>2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol<br>3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon? |
|---|---|---|---|---|
| | **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **y naill na'r llall** | |
| | | | | |
| **Oedran** | ☐ | ☐ | ☒ | Mae sefydlu Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn cefnogi'r galw cynyddol am addysg Cyfrwng Cymraeg ar draws dinas Casnewydd, sydd wedi bod yn tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae sefydlu Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli wedi cael effaith gadarnhaol ac wedi cynyddu'r dewis a'r cyfleoedd i rieni a phlant yng Nghasnewydd fynychu addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Ni fydd y cynnig i ohirio gweithredu camau dau a thri o'r cynnig ad-drefnu ysgolion gan un flwyddyn yn effeithio'n sylweddol ar allu'r Cyngor i ddarparu lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Mae digon o le yn y lleoliad egin dros dro i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli barhau i dyfu am flwyddyn arall yn y lleoliad |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith: Cadarnhaol | Negyddol | Dim y naill na'r llall | **Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:**<br>1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau<br>2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol<br>3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hwnnw. Rhagwelir hefyd y bydd digon o leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg o amgylch ardal Pilgwenlli ym mis Medi 2023, gan gynnwys yn Ysgol Gynradd Maesglas ac Ysgol Gynradd Gaer, a chefnogir hyn gan gynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar o fis Medi 2024. |
| | | | | |
| **Anabledd** | ☒ | ☒ | ☐ | Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydnabod, er bod rhywfaint o gydblethu rhwng anabledd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, nad yw'r ddwy yn gyd-ddibynnol a gallant fod yn annibynnol ar ei gilydd. Fodd bynnag, er hwylustod cyfeirio, mae'r effaith bosibl ar blant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'i chynnwys yn yr adran hon.<br><br>Ystyrir bod adeilad presennol ysgol Gynradd Pilgwenlli ac adeilad Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yng Nghaerllion yn hygyrch. Mae'r olaf wedi'i adnewyddu'n ddiweddar at y diben hwnnw.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cyfleusterau Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) ym mhob ysgol newydd gan fod hyn yn cefnogi dull mwy cynhwysol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd cyfleuster CAD 10 lle yn cael ei sefydlu yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ar ôl i'r ysgol symud i'r lleoliad parhaol. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth o'r fath yn yr ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg eraill ledled Casnewydd. Oherwydd yr oedi wrth symud i'r lleoliad parhaol, bydd oedi wrth weithredu'r CAD cyfrwng Cymraeg a gall hyn gael effaith negyddol ar ddisgyblion y mae angen lleoliad CAD Cymraeg arnynt ym mis Medi 2024.<br><br>Mae oedi cyn adeiladu'r adeilad newydd ar gyfer ysgol Gynradd Pilgwenlli hefyd yn oedi darparu'r 10 lle CAD ychwanegol arfaethedig ar gyfer yr ysgol gan flwyddyn, gan leihau argaeledd lleoedd lleol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Bydd adeilad newydd yr ysgol ar safle Whiteheads yn gwbl hygyrch i ddisgyblion sydd â namau symudedd a synhwyraidd, gan gael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion. Yn ystod y gwaith adnewyddu ar adeilad presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli, caiff ffyrdd o wella hygyrchedd yr adeilad eu hystyried. |
| | | | | |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith: Cadarnhaol | Effaith: Negyddol | Effaith: y naill na'r llall | Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:<br>1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau<br>2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol<br>3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon? |
|---|---|---|---|---|
| **Ailbennu Rhywedd / Trawsryweddol** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd yr oedi yn nyddiad gweithredu'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. Ni fydd cyfleusterau toiled a ddarperir fel rhan o ddatblygiad y ddwy ysgol yn cael arwyddion sy'n benodol i ryw, a gellir eu dyrannu yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau (e.e. fesul dosbarth), fodd bynnag, yr ysgol unigol sydd i benderfynu sut y caiff y cyfleusterau hyn eu defnyddio. |
| | | | | |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd yr oedi yn nyddiad gweithredu'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Beichiogrwydd neu famolaeth** | ☒ | ☐ | ☐ | I rieni sy'n disgwyl, rhagwelir y bydd ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar y dewisiadau addysg sydd ar gael yn lleol. Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd yr oedi yn nyddiad gweithredu'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Hil** | ☒ | ☒ | ☐ | Mae Pilgwenlli yn gymuned amrywiol, gyda chyfran uchel o drigolion Du Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. O fewn yr Ysgol Gynradd bresennol, mae 23% o fyfyrwyr yn rhestru eu hiaith gyntaf fel Saesneg, gyda 23 o ieithoedd eraill yn cael eu siarad gan ddisgyblion. Nodir bod gan 84% o ddisgyblion Saesneg fel iaith ychwanegol, o'i gymharu â chyfartaledd o 18% ar draws yr holl ysgolion yng Nghasnewydd. Ieithoedd eraill a siaredir amlaf yw Bengaleg (18%), a Punjabi (17%). Mae 88% o ddisgyblion Ysgol Gynradd Pilgwenlli o gefndir lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â chyfartaledd o 26% yng Nghasnewydd.<br><br>Gellir dod i'r casgliad felly y bydd adleoli'r Ysgol Gynradd a darparu ysgol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion a rhieni o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd â Saesneg fel ail iaith, neu heb sgiliau Saesneg. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd oedi wrth adleoli'r ysgol yn effeithio'n negyddol ar y disgyblion na'r gymuned. Disgwylir i ddarparu ysgol newydd gael effaith gadarnhaol ar y gymuned hon.<br><br>Gellid ystyried bod oedi wrth adleoli Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn gwneud y cynnig cyfrwng Cymraeg yn llai deniadol i drigolion cymuned Pilgwenlli tra bo'r ysgol wedi'i lleoli yng Nghaerllion, gan felly gyfyngu ar |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith: Cadarnhaol | Negyddol | y naill na'r llall | Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:<br>1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau<br>2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol<br>3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ddewis. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cymwys sydd am fynychu'r ysgol. |
| | | | | |
| **Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred** | ☐ | ☐ | ☒ | Mae Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r cynnig yn cynnig yr opsiwn o addysg sy'n seiliedig ar ffydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, bydd yr ysgol yn dilyn pob agwedd ar y cwricwlwm addysgu newydd gan gynnwys addysg grefyddol, amrywiaeth a lles. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd yr oedi yn nyddiad gweithredu'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Rhywedd** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd yr oedi yn nyddiad gweithredu'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd yr oedi yn nyddiad gweithredu'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd warchodedig hon. |
| | | | | |

## 2. Effaith ar y Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) yn nodi bod yn rhaid i'r cyngor ystyried yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) ar y Gymraeg ar gyfer pob penderfyniad polisi. Am arweiniad pellach ar ystyriaethau'r Gymraeg gweler yma.

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol | Negyddol | Y naill na'r llall | |
| | | | | |
| **Y Gymraeg** | ☒ | ☒ | ☐ | Mae Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn ysgol cyfrwng Cymraeg, sy'n golygu y bydd yn darparu nifer fawr o leoedd ysgol Cymraeg ychwanegol yn ardal Casnewydd, gan gael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion sy'n dymuno mynychu ysgol Gymraeg. Mae'r cynnig yn gwneud cyfraniad cryf i siarter Llywodraeth Cymru o gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.<br><br>Er y bydd oedi cyn adleoli Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, mae digon o le yn y lleoliad dros dro i letya disgyblion am flwyddyn academaidd ychwanegol. Roedd maint y dosbarth Derbyn i fod i gynyddu o 30 i 60 o ddisgyblion ar ôl i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli adleoli i safle presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli. Oherwydd yr oedi wrth adleoli, byddai'r nifer derbyn yn parhau i fod yn 30 am flwyddyn ychwanegol. Mae'n annhebygol y bydd y ffaith bod llai o leoedd ar gael ym mis Medi 2023 yn effeithio ar ddisgyblion sy'n gwneud cais am le mewn dosbarth derbyn yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, gan fod amcanestyniadau disgyblion yn dangos y bydd 30 o leoedd yn ddigonol. Cydnabyddir fodd bynnag, y bydd effaith yr oedi yn cael effaith fach ar y gyfran o leoedd cyfrwng Cymraeg yng nghlwstwr YG Nant Gwenlli yn y flwyddyn academaidd 24/25 fel y dangosir yn Nhabl 1 isod yn sgil cynnydd bach yn y lleoedd cyfrwng Saesneg yn yr ardal. |

Tabl 1: Cyfran y lleoedd sydd ar gael fesul blwyddyn academaidd fesul math o gategori ysgol yn nalgylch Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli

| **Blwyddyn Academaidd** | **21/22** | **22/23** | **23/24** | **24/25** | **25/26** |
|---|---|---|---|---|---|

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol | Negyddol | Y naill na’r llall | |

| Math o Ysgol | PAN | % Share | PAN | % Share | PAN | % Share | PAN | % Share | PAN | % Share |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CS | 461 | 75.45% | 461 | 75.45% | 461 | 75.45% | 488 | 76.49% | 488 | 73.05% |
| Ffydd | 120 | 19.64% | 120 | 19.64% | 120 | 19.64% | 120 | 18.81% | 120 | 17.96% |
| CC | 30 | 4.91% | 30 | 4.91% | 30 | 4.91% | 30 | 4.70% | 60 | 8.98% |
| Cyfanswm | 611 | 100.00% | 611 | 100.00% | 611 | 100.00% | 638 | 100.00% | 668 | 100.00% |

Mae'r cynigion yn cefnogi targed y Cyngor i gynyddu nifer y plant oed cynradd sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel y nodir yn ei strategaeth 5 mlynedd, yn ogystal â'r Nod Llesiant o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

| Tabl 2: Targed 10 Mlynedd y CSGA ar gyfer % niferoedd cyfrwng Cymraeg y garfan Dderbyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2022 - 2023** | | **2023 - 2024** | | **2024 - 2025** | | **2025 - 2026** | | **2026 - 2027** | |
| 116* | 6.10% | 129** | 6.60% | 150 | 7.60% | 160 | 8.10% | 171 | 8.60% |
| **2027 – 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 - 2032** | |
| 180 | 9.20% | 193 | 9.80% | 193 | 10.40% | N/K | 11.10% | N/K | 11.10% |
| O 2024-25 ymlaen, cyfrifwyd niferoedd trwy gymhwyso'r targed % i amcanestyniadau disgyblion CDC.<br>*% wedi'i gymhwyso i rif Derbyn CYBLD 2023.<br>**% wedi’i gymhwyso i amcangyfrif o’r garfan yn seiliedig ar leoedd Derbyn a ddyrannwyd fis Medi 2023 | | | | | | | | | |

Mae'r data yn nhabl 2, uchod, yn nodi'r gyfradd dwf isaf a ddymunir i gyflawni Targed 10 Mlynedd CSCA Casnewydd ar gyfer y garfan Dderbyn. Caiff y boblogaeth darged ei mesur fel canran o'r garfan, ac mae'r niferoedd yn y tabl yn ddangosol yn seiliedig ar amcanestyniadau. Felly, er y gall darpariaeth cyfrwng Saesneg gynyddu, rydym yn dal i ymrwymo i'r un cynnydd cynyddrannol yng nghanran y niferoedd ar draws y sector cyfrwng Cymraeg yn unol â'n CSGA, a bydd y nifer gwirioneddol yn gymesur â maint y

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol | Negyddol | Y naill na'r llall | |
| | | | | garfan flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae targed y CSGA yn ganran o garfan y flwyddyn berthnasol ac nid canran y llefydd sydd ar gael.<br><br>Nodir oherwydd yr oedi wrth adleoli Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, y NDC cyfrwng Cymraeg ar gyfer Medi 2024 fydd 142 sy'n is na'r targed disgwyliedig yn y CSGA o 150 o ddisgyblion. Os yw'r Cyngor yn derbyn ceisiadau am fwy na 142 o leoedd Derbyn Cymraeg ar gyfer y flwyddyn hon, bydd swyddogion yn gweithio gyda Phennaeth a Chorff Llywodraethu YG Nant Gwenlli i ystyried sut y gellir darparu lleoedd ychwanegol cyn symud i safle parhaol. Mae lleoliad dros dro Ysgol Nant Gwenlli yng Nghaerllion y tu allan i ddalgylch yr ysgol ei hun a'r oedi cyn symud i'r safle parhaol yn Pilgwenlli, ac er bod cludiant am ddim yn cael ei ddarparu, cydnabyddir bod y trefniant hwn yn debygol o effeithio ar y nifer sy'n gwneud cais am leoedd yn yr ysgol.<br><br>Mae pedwar is-grŵp sy'n monitro gweithrediad y CSGA ac mae'r grŵp 'Tyfu' sy'n cwmpasu Deilliannau 1 a 2 yn canolbwyntio'n gryf ar hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae'r hyrwyddo yn cynnwys:<br>• Diweddariadau i ymgyrch 'Dod yn Ddwyieithog' Casnewydd;<br>• Hyrwyddo Partïon Bwmp (Baby Shower) Dechrau'n Deg ar gyfer rhieni sy'n disgwyl yn y ddinas;<br>• Cydweithio â'r Pencampwr Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg Rhanbarthol;<br>• Rhannu gwybodaeth hyrwyddo gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;<br>• Gwnaed gwaith hyrwyddo yn ardal Pilgwenlli i hyrwyddo'r ysgol newydd i drigolion lleol, wedi'i gydlynu a'i chynllunio gan Menter Iaith Casnewydd a phartneriaid allweddol yng Nghanolfan Mileniwm Pilgwenlli yn 2023;<br>• Prosiectau fideo hyrwyddo;<br>• Cyfathrebu gyda grwpiau'r Blynyddoedd Cynnar.<br><br>Yr is-grŵp "Tyfu" sy'n cyfarfod yn dymhorol ac yn cael ei gadeirio gan gynrychiolydd Cymraeg i Blant.<br><br>Mae'n bosibl y bydd rhieni sy'n anfon eu plant i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ar hyn o bryd yn cael eu heffeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol, yn dibynnu os yw'r egin leoliad neu'r lleoliad parhaol yn fwy cyfleus i'r rhiant anfon ei blentyn/plant iddo. |

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol | Negyddol | Y naill na'r llall | |
| | | | | Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydnabod yr her barhaus o ran recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg i swyddi hanfodol, gan gynnwys rolau sy'n darparu addysg Gymraeg. Rhagwelir y bydd y cynlluniau ar gyfer dechrau fesul cam yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, gan alluogi twf graddol, yn helpu i sicrhau bod recriwtio'n llwyddiannus ac yn lleihau unrhyw effaith bosibl ar ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i hwyluso cymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriad drwy gyfrwng y Gymraeg. Sicrhaodd y Cyngor fod yr holl brosesau'n adlewyrchu hyn, gan ganiatáu ar gyfer cyfraniad cydradd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. |
| | | | | |

**1. Disgrifiwch sut rydych wedi sicrhau bod eich ymgysylltiad wedi ystyried barn siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd.**

Sicrhawyd bod yr holl ddogfennau a chyhoeddusrwydd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, rhoddwyd camau ar waith hefyd i sicrhau y gallai siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd gyfrannu a chymryd rhan yn y broses ymgynghori ac ymgysylltu; Cysylltwyd â rhanddeiliaid sy'n siarad Cymraeg, Fforwm Cymraeg mewn Addysg Casnewydd a grwpiau buddiant eraill, yn ogystal â rhieni a phlant yn uniongyrchol i roi gwybod iddynt am y cynnig a'r ymgynghoriad. Gofynnwyd am farn a safbwyntiau siaradwyr Cymraeg o bob rhan o Gasnewydd fel rhan o'r broses ymgynghori a hyrwyddwyd drwy sianeli a rhwydweithiau a fyddai'n sicrhau bod ymwybyddiaeth yn cael ei chodi ymhlith siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd.

Er mwyn sicrhau bod ymgynghoriad cyfartal yn cael ei gyflawni yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae Cyngor Dinas Casnewydd:

- wedi sicrhau bod yr holl ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog
- Sicrhau bod holl negeseuon e-bost rhanddeiliaid yn ddwyieithog
- Sicrhau bod fersiwn Gymraeg o dudalen we yr ymgynghori ar wefan CDC
- wedi darparu gwasanaethau cyfieithu mewn sesiynau galw heibio lle y bo'n briodol
- Annog rhanddeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad yn Gymraeg
- wedi sicrhau bod yr holiadur ymgynghori yn gofyn cwestiynau penodol mewn perthynas ag effaith gadarnhaol neu negyddol bosibl y project ar y cyfle i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg
- Roedd aelodau Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd yn rhan o'r rhestr rhanddeiliaid allweddol

- Cymerodd pob ysgol Cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd ran mewn sesiynau llais disgyblion

## 3. Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith sy'n helpu sefydliadau i ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol, a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau hirdymor. Isod, ystyriwch sut mae eich penderfyniad yn hyrwyddo, yn datblygu, neu'n gwrth-ddweud y 5 ffordd o weithio sy'n sail i'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gallwch weld canllawiau pellach ar ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy yma.

| | | |
|---|---|---|
| Hirdymor | *Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.* | Byddai'r cynnig yn gohirio gweithredu ail a thrydedd ran y cynnig ad-drefnu ysgolion a fydd yn sicrhau manteision hirdymor a hynny am flwyddyn a c am ddau dymor ysgol yn y drefn honno. Mae angen yr oedi gan nad yw'r tir sydd ei angen ar gyfer yr adeilad newydd wedi'i drosglwyddo i'r cyngor yn yr amserlen a ddisgwylid yn flaenorol. Yn dilyn trosglwyddo'r tir, roedd angen gwaith adfer wedyn i sicrhau nad oedd tir halogedig yn bresennol er mwyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.<br><br>Yn dilyn trosglwyddo'r tir, roedd angen gwaith adfer wedyn i sicrhau nad oedd tir halogedig yn bresennol er mwyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.<br><br>Pan fydd yn y lleoliad parhaol, bydd yn cymryd 7 mlynedd i'r ysgol gynnig y capasiti mwyaf posibl. Yn unol â'r CSCA, mae cynlluniau ar gyfer 5ed ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg bosibl yn cael eu hystyried i ddarparu rhagor o leoedd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion dros yr hirdymor. |
| Atal | *Neilltuo adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu* | Mae'r angen am addysg Gymraeg wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac nid oedd addysg Gymraeg yn ardal Caerllion na Phillgwenlli. Felly bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion a dylai fod ar gael i ddisgyblion sy'n byw yn y ddwy ardal hyn. Bydd hyn yn galluogi plant i fynychu ysgol Gymraeg sy'n fwy lleol i'w cartrefi.<br><br>Bydd y cynnig yn sicrhau 430 o leoedd ychwanegol i ddisgyblion a fydd yn sicrhau capasiti ar gyfer twf tymor hir cyflymach mewn addysg cyfrwng Cymraeg dros y blynyddoedd i ddod ac o bosibl yn ysgafnhau'r pwysau ar ysgolion eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ni fydd yr oedi yn symud Ysgol Gymraeg Nant Gwenllli i'r lleoliad parhaol yn creu problem o ran diffyg lleoedd cyfrwng Cymraeg, gan y bydd grwp blwyddyn ychwanegol yn gallu cael ei letya yn y lleoliad dros dro ym mis Medi 2024. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r oedi o ran yr adleoli gael effaith ar gyfradd y twf yn nifer y disgyblion, gan y deallir bod y lleoliad dros dro yn rhwystr i rai darpar deuluoedd, oherwydd ei fod yn bell o'r lleoliad parhaol.<br><br>Mae'r Cyngor yn lliniaru effaith yr oedi ar y gweithredu drwy raglen adeiladu carlam ar gyfer yr ysgol newydd ar safle Whiteheads a thrwy gefnogi gweithredu'r Rhif Derbyn Cyhoeddedig newydd yn gynnar ar gyfer Ysgol Gynradd Pilgwenlli i gefnogi carfan Derbyn Medi 2024. |
| Integreiddio | *Ystyried sut y gall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.* | Bydd ymgynghoriad statudol ffurfiol yn mynd rhagddo a chafodd ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Chymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill. Hefyd, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd "I wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth" a Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. |
| Cydweithio | *Cydweithio i gyflawni amcanion* | Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a chafodd ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu mewn ymateb i sylwadau gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd.<br><br>Agorodd Cylch Meithrin (cylch chwarae cyfrwng Cymraeg) yn ardal Caerllion ym mis Medi 2021 i helpu i hyrwyddo ac annog pobl i ddewis Ysgol Gymraeg Nant Gwenllli. Bydd y ddarpariaeth hon yn aros yng Nghaerllion i hybu'r nifer sy'n dewis cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn yr hirdymor. |
| Cynnwys Pobl | *Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn - gan sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.* | Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol i gefnogi'r cynnig gwreiddiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a chafodd ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r rhanddeiliaid canlynol ymhlith y rhai a gymerodd ran yn y broses ymgynghori: |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid Ysgol Gynradd Pilgwenlli, Ysgol Gymraeg Casnewydd, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon ac Ysgol Gymraeg Ifor Hael;<br>• Aelodau staff yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli, Ysgol Gymraeg Casnewydd, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon ac Ysgol Gymraeg Ifor Hael;<br>• Aelodau'r Senedd (AoS) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sy'n destun y cynigion;<br>• Estyn;<br>• Unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gellir effeithio arnynt, gan gynnwys y Mudiad Meithrin;<br>• Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;<br>• Unrhyw gorff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol â buddiant;<br>• Comisiynydd y Gymraeg.<br>• Grwpiau cymunedol lleol<br>• Sefydliadau gwirfoddol a grwpiau buddiant<br><br>Mae'r rhanddeiliaid wedi cymryd rhan drwy gydol y broses ymgynghori gyfan ac wedi rhoi adborth, sydd wedi'i ystyried wrth wneud penderfyniadau.<br><br>Hysbyswyd rhanddeiliaid bod y penderfyniad gwreiddiol ar weithredu dwy elfen o'r cynnig wedi'i ohirio o flwyddyn ym mis Mawrth 2022. Cafodd rhieni a myfyrwyr Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ac Ysgol Gynradd Pilgwenlli eu hysbysu drwy eu hysgolion a byddant yn cael eu gwahodd i gysylltu â swyddogion y cyngor i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â'r oedi. Fodd bynnag, ni fu cyswllt gyda swyddogion Cyngor Casnewydd.<br><br>Mae'r Cyngor bellach yn ceisio addasu'r penderfyniad gwreiddiol fel bod oedi o flwyddyn arall wrth weithredu dwy elfen o'r cynnig a dau |

| | | |
|---|---|---|
| | | dymor ysgol yn y drefn honno. Trafodwyd hyn gyda Phenaethiaid a Chyrff Llywodraethu'r ddwy ysgol a’r Fforwm Addysg Gymraeg, ac mae pob plaid yn gefnogol i hyn fel y ffordd orau ymlaen. |

## 4. Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Mae’r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor, wrth wneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Teimlir bod anghydraddoldebau o ran canlyniadau yn cael eu teimlo'n fwyaf difrifol mewn meysydd fel iechyd, addysg, gwaith, safonau byw, cyfiawnder a diogelwch personol, a chyfranogiad.

Diffinnir 'penderfyniad strategol' gan Lywodraeth Cymru fel penderfyniad **sy'n effeithio ar sut mae'r cyngor yn cyflawni ei ddiben statudol dros gyfnod sylweddol o amser ac nad yw'n cynnwys penderfyniadau 'o ddydd i ddydd' arferol.** Mae penderfyniadau strategol yn cynnwys:

- Cynlluniau Corfforaethol
- Pennu amcanion strategol llesiant, cydraddoldeb ac amcanion eraill
- Newidiadau i wasanaethau cyhoeddus, neu eu datblygu
- Cynllunio ariannol strategol
- Datblygu polisïau strategol

Os nad ydych yn credu bod eich penderfyniad yn bodloni'r diffiniad hwn, ac nad ydych yn bwriadu cynnal Asesiad Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn yr adran hon, rhowch eich rhesymeg isod. Bydd unrhyw benderfyniad a gyflwynir i Aelod Cabinet, yn y Cabinet neu'r Cyngor, yn cael ei ystyried yn benderfyniad strategol.

| |
|---|
| Gan fod hwn yn benderfyniad gweithredol Aelod Cabinet dros Addysg yn hytrach na phenderfyniad strategol gan y Cyngor, nid oes gofyniad i werthuso'r cynnig o ran Dyletswyddau Economaidd-Gymdeithasol y Cyngor. |

Os yw eich penderfyniad yn bodloni'r diffiniad, ystyriwch effaith eich penderfyniad ar y grwpiau dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a meysydd anghydraddoldeb a allai godi o anfantais economaidd-gymdeithasol a geir yn y matrics isod. Nid yw'r grwpiau a restrir yn gynhwysfawr a dylech ystyried unrhyw grwpiau ychwanegol sy'n berthnasol i'ch penderfyniad a allai brofi anfantais economaidd-gymdeithasol yn y ffyrdd canlynol:

- **Incwm Isel/Tlodi Incwm** - yn methu fforddio cynnal taliadau rheolaidd fel biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati.
- **Isel a/neu ddim Cyfoeth** - digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a thalu biliau ond nid oes ganddynt unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl ac nid oes unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol
- **Amddifadedd Materol** - methu â chael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, trwsio/disodli nwyddau trydanol sydd wedi torri, cartref cynnes, hobïau ac ati)
- **Amddifadedd Ardal** - lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus)
- Cefndir Economaidd-Gymdeithasol – er enghraifft, addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni

Nodwch effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'r ddau lle maent yn gymwys, a difrifoldeb yr effaith hon drwy godio rhannau'r grid yn seiliedig ar yr isod. *Os nad oes effaith/neu ei fod yn niwtral, gadewch yn wag.*

| **Effaith Negyddol** | | **Effaith Gadarnhaol** | |
|---|---|---|---|
| N1 | Effaith negyddol – ysgafn | P1 | Effaith gadarnhaol – ysgafn |
| N2 | Effaith negyddol – cymedrol | P2 | Effaith gadarnhaol – cymedrol |
| N3 | Effaith negyddol – sylweddol | P3 | Effaith gadarnhaol – sylweddol |
| N4 | Potensial ar gyfer effaith negyddol (ond yn ansicr) | P4 | Potensial ar gyfer effaith gadarnhaol (ond yn ansicr) |

| **Meysydd anghydraddoldeb a allai godi o anfantais economaidd-gymdeithasol – diffiniadau** |
|---|
| **Addysg** :Y gallu i fod yn wybodus, i ddeall a rhesymu, ac i gael y sgiliau a'r cyfle i gymryd rhan yn y farchnad lafur ac mewn cymdeithas |
| **Gwaith:**Y gallu i weithio mewn amodau cyfiawn a ffafriol, i gydnabod gwerth eich gwaith, hyd yn oed os nad yw'n ddi-dâl, i beidio â chael ei atal rhag gweithio ac i fod yn rhydd o gaethwasiaeth, llafur gorfodol a mathau eraill o gamfanteisio |
| **Safonau Byw:** Y gallu i fwynhau safon byw gyfforddus, mewn tai priodol, gydag annibyniaeth a diogelwch, ac i gael gofal a chefnogaeth pan fo angen. |
| **Cyfiawnder, Diogelwch Personol a Diogelwch Cymunedol**: Y gallu i osgoi marwolaethau cynamserol, byw mewn diogelwch, a gwybod y cewch eich diogelu a'ch trin yn deg gan y gyfraith |
| **Iechyd:** Y gallu i fod yn iach, yn gorfforol ac yn feddyliol, bod yn rhydd mewn materion sy'n ymwneud â pherthnasoedd rhywiol ac atgenhedlu, a chael ymreolaeth dros ofal a thriniaeth a chael gofal yng nghamau olaf eich bywyd |

| **Cyfranogiad:** Y gallu i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac mewn cymunedau, cael mynediad at wasanaethau, gwybod y caiff eich preifatrwydd ei barchu, a mynegi eich hun | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| **Grwpiau** | **Meysydd anghydraddoldeb** | | | | | | |
| | Safonau Byw | Gwaith | Iechyd | Addysg | Cyfiawnder a diogelwch cymunedol | Cyfranogi | Amgylchedd ffisegol |
| Plant sy'n byw mewn tlodi | | | | | | | |
| Aelwydydd incwm isel heb blant dibynnol | | | | | | | |
| Pobl ifanc ddi-waith | | | | | | | |
| Di-waith am gyfnod hir? | | | | | | | |
| Aelwydydd digartref | | | | | | | |
| Ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches | | | | | | | |
| Cymdogaethau difreintiedig - Safle MALlC yn y 10% isaf o'r ACEHI mwyaf difreintiedig | | | | | | | |
| Pobl ar Gredyd Cynhwysol / budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm | | | | | | | |
| Oedolion heb gymwysterau neu gymwysterau isel | | | | | | | |
| Pobl sy'n byw mewn tai o ansawdd isel neu mewn Tai Amlfeddiannaeth | | | | | | | |

## 1. Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran deilliannau yn ymwneud â'r penderfyniad hwn?

*Ymhelaethwch ar y wybodaeth a ddarperir yn y matrics, gan roi rhesymau dros eich asesiad o effeithiau cadarnhaol a negyddol. Efallai yr hoffech ystyried eich profiad o'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau ar hyn o bryd, ymgysylltu neu ymgynghori diweddar neu unrhyw ymchwil genedlaethol/leol sy'n berthnasol i'ch penderfyniad polisi.*

*Ar gyfer unrhyw effeithiau cadarnhaol, nodwch y* ***Nod Llesiant*** *a/neu'r* ***Amcan Llesiant*** *y mae hyn yn cyfrannu ato fel y nodir yn yr adran flaenorol.*

**2. Disgrifiwch sut rydych wedi sicrhau bod eich ymgysylltiad wedi ystyried barn pobl sy'n byw yng Nghasnewydd sy'n cael eu heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol.**

| |
|---|
| |

**3. A yw'r penderfyniad hwn yn cyfrannu at effaith gronnol?**

*A. Ystyriwch eich penderfyniad yng nghyd-destun ehangach eich gwasanaeth a'r sefydliad. A yw hyn yn rhan o, neu a yw'n cyfrannu tuag at, gyfres o benderfyniadau sy'n cael effaith negyddol ar yr un grwpiau o bobl, neu'r un ardal yng Nghasnewydd (e.e. tynnu gwasanaethau lluosog yn ôl).*

*B. Ystyriwch a yw eich penderfyniad yn cael effaith gronnol oherwydd croestoriadedd – h.y. a ydych wedi nodi effeithiau ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig a fydd dan anfantais bellach oherwydd effeithiau economaidd-gymdeithasol.*

# Rhan 3: Camau Gweithredu a Chanlyniadau

O ystyried unrhyw effeithiau negyddol yr ydych wedi'u nodi, nodwch isod sut y byddwch yn lleihau'r rhain, a sut y byddwch yn monitro effaith bosibl.  Mae rhagor o ganllawiau ar sut i gwblhau eich cynllun gweithredu ar gael yma.

| EFFAITH AR BOBL SY'N RHANNU NODWEDDION GWARCHODEDIG | | | |
|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r effaith** | **Camau i leihau effaith negyddol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| **Anabledd** - Oherwydd yr oedi wrth symud i'r lleoliad parhaol, bydd oedi wrth weithredu'r CAD cyfrwng Cymraeg a gall hyn gael effaith negyddol ar ddisgyblion y mae | Oherwydd niferoedd isel y disgyblion a dderbynwyd ym mlynyddoedd 2021/2022, bydd ystafell ddosbarth wag ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd Medi 2024/25 a ddylai | Bydd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol ar gyfer Cynhwysiant ynghyd â'r Pennaeth Addysg Cynorthwyol ar gyfer Adnoddau yn monitro'r galw am ddarpariaeth CAD cyfrwng Cymraeg. | Addysg - CDC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| angen lleoliad CAD Cymraeg arnynt ym mis Medi 2023. | fod yn ddigonol pe bai angen lletya dosbarth CAD cyfrwng Cymraeg. | | |
| **Anabledd** - Mae'r oedi cyn adeiladu'r adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn gohirio darparu'r CAD 10 lle ychwanegol arfaethedig ar gyfer yr ysgol gan flwyddyn, gan leihau'r lleoedd lleol sydd ar gael i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. | Bydd y galw yn erbyn argaeledd lleoedd yn cael ei fonitro'n agos a lle bo angen rhoddir ystyriaeth i gynyddu'r ddarpariaeth mewn CADau eraill. Fel arall, bydd disgyblion yn cael eu lletya mewn dosbarthiadau prif ffrwd gyda chymorth priodol. | Bydd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol ar gyfer Cynhwysiant ynghyd â'r Pennaeth Addysg Cynorthwyol ar gyfer Adnoddau yn monitro'r galw am leoedd CAD yng nghlwstwr John Frost. | Addysg - CDC |
| **Hil** - Gellid ystyried bod oedi wrth adleoli Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn gwneud y cynnig cyfrwng Cymraeg yn llai deniadol i drigolion cymuned Pilgwenlli tra bo'r ysgol wedi'i lleoli yng Nghaerllion, gan gyfyngu ar ddewis. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cymwys sydd am fynychu'r ysgol. | Mae digon o gapasiti yn y lleoliad dros dro i ddarparu ar gyfer Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli am flwyddyn arall nes bod yr ysgol yn gallu symud i'r lleoliad parhaol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau y gellir adleoli cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl, drwy gyflymu gwaith adnewyddu ar safle Capel Crescent. Byddai disgyblion o ardal Pilgwenlli yn cael cynnig cludiant i'r lleoliad egin ar gyfer y cyfnod ychwanegol. | Bydd y Cyngor yn monitro ceisiadau derbyn i'r ddwy ysgol. | Addysg - CDC |
| **EFFAITH AR Y GYMRAEG** | | | |
| **Crynodeb o'r effaith** | **Camau i leihau effaith negyddol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| Roedd maint derbyn y dosbarth Derbyn i fod i gynyddu o 30 i 60 o ddisgyblion ar ôl i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli adleoli i safle presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli. Oherwydd yr oedi wrth adleoli, byddai'r grŵp blwyddyn yn parhau i fod yn 30 am flwyddyn ychwanegol. | Mae rhagamcanion disgyblion yn awgrymu y bydd 30 lle yn ddigonol i ateb y galw am leoedd Derbyn yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ym mis Medi 2024. Os derbynnir mwy na 30 o geisiadau gan ddisgyblion ar gyfer yr ysgol ym mis Medi 2024, bydd trefniadau i dderbyn y disgyblion yn cael eu hystyried mewn partneriaeth â Chorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. | Bydd gwaith yn cael ei wneid i fonitro'r rhagolygon o ran niferoedd disgyblion, er mwyn sicrhau bod digon o leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg ar gael. Yn ogystal, ar ôl derbyn ceisiadau i'r Dosbarth Derbyn, bydd nifer y disgyblion sy'n gwneud cais am Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn cael ei hasesu. | Addysg - CDC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gall y lleoliad neu'r lleoliad parhaol fod yn llai cyfleus i'r rhiant anfon ei blentyn/plant.<br><br>Gall yr oedi wrth adleoli i'r safle parhaol ym Mhilgwenlli gael effaith negyddol ar y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli tra'i bod yn aros yn y lleoliad dros dro. | Mae dalgylchoedd yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi'u halinio'n briodol, felly gall hyn leihau amser teithio i ddisgyblion a rhieni. Ar hyn o bryd mae cludiant ysgol yn cael ei gynnig i ddisgyblion yn ardal Pilgwenlli i deithio i'r safle a bydd hefyd yn cael ei gynnig i ddisgyblion yn ardal Caerllion unwaith y bydd angen i'r disgybl deithio i Pilgwenlli. | Bydd gwaith i fonitro rhagolygon niferoedd disgyblion yn cael ei wneud, er mwyn sicrhau bod digon o leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg ar gael. Yn ogystal, ar ôl derbyn ceisiadau i'r Dosbarth Derbyn, bydd nifer y disgyblion sy'n gwneud cais am Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn cael ei hasesu. | Addysg - CDC |
| | | | |
| **EFFEITHIAU ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL** | | | |
| **Crynodeb o'r effaith** | **Camau i leihau effaith negyddol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| **EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY** | | | |
| **Crynodeb o'r effaith** | **Camau i leihau effaith negyddol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Unwaith y bydd eich AEDCh wedi'i gwblhau, anfonwch ymlaen at nccequality@newport.gov.uk